| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **PENDERFYNU AR AELODAETH YNG NGHRONFA BENSIWN GWYNEDD AR GYFER GYRFAOEDD CYMRU** |
| **TEITL** | **GYRFAOEDD CYMRU** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Roedd strwythur y Gwasanaeth Gyrfaoedd yng Nghymru ar sail ranbarthol gyda bob ardal yn aelod o'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol berthnasol i'w ardal. Roedd Gyrfaoedd Gogledd Orllewin Cymru yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ffurfio Gyrfa Cymru o'r cyrff rhanbarthol blaenorol a ddaeth yn weithredol ar 1af Ebrill 2012. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth o'r Gronfa Bensiwn yn parhau ar sail yr hen strwythur.

**1.2** Bydd y cwmni newydd yn aelod o un o'r Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol bresennol yng Nghymru. Nid yw'r mater o ba gronfa fydd yn derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwyr wedi cael ei datrys eto. Y prif reswm nad oes cytundeb yw'r diffygion sy'n bodoli ym mhob cronfa mewn perthynas i'r cyrff rhanbarthol blaenorol a'r amharodrwydd i gymryd y diffyg yn y dyfodol. Mewn cydnabyddiaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno cymryd 'perchnogaeth' dros y corff newydd os gellir cytuno ar y sefyllfa pensiynau.

## 2. CRYNODEB RISGIAU

**2.1** Bydd y Gronfa Bensiwn sydd yn derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwr yn wynebu nifer o risgiau. Mae'r prif risgiau fel a ganlyn:

- Sicrwydd cyllido ar gyfer Gyrfa Cymru yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid ar hyn o bryd ac er y byddent yn cymryd cyfrifoldeb dros y cwmni nid yw hyn yn gwarantu cyllid yn y dyfodol.

- Gallai Llywodraeth Cymru penderfynu terfynu Gyrfaoedd Cymru yn y dyfodol a gadael diffyg sylweddol i'w gyllido gan y Gronfa Bensiwn a'r cyflogwyr eraill.

- Trosglwyddir y diffygion o'r cyn rhanbarthau o'u cronfeydd pensiwn cyfredol i'r Gronfa newydd ac er derbyniwyd taliad gan bob cronfa fel

rhan-setliad o'r diffygion yma, mae'r symiau yn dal yn sylweddol. Wrth asesu'r diffygion yma mae actiwarïaid gwahanol yn defnyddio tybiaethau gwahanol. Wrth ddefnyddio tybiaethau cyfredol Cronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn prisio'r diffygion bydd y symiau yn codi gan fod Gwynedd yn defnyddio dull mwy pwyllog na'r mwyafrif o gronfeydd eraill yng Nghymru.

- Disgwylir i'r trosglwyddiad digwydd erbyn 1af Ebrill 2013 sydd yn amserlen fer iawn yn ystod cyfnod pan ymgymerir â gwaith ychwanegol sylweddol gan yr uned gweinyddiaeth mewn perthynas â'r gweithrediad system gyfrifiadurol newydd a darpariaeth gwybodaeth ar gyfer prisiad actiwarïaid 2013.

- Mae pencadlys y cwmni newydd yn bell o Wynedd a byddai'n gallu effeithio'r gallu i fynychu cyfarfodydd cyflogwyr a chyflwyniadau yng Nghaernarfon.

**2.2** Er mwyn lliniaru risgiau ariannol bydd yn ofynnol cael bond gan y cwmni newydd. Cytunir cyfrifiad y bond gyda'r gronfa bensiwn sydd yn cymryd dros yr ymrwymiadau a adolygir yn gyson er mwyn sicrhau ei fod o'n ddigonol i dalu'r ymrwymiadau. Telir cost y bond gan y cwmni ac mae angen ei gynnwys mewn cynllun ariannol y cwmni.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y risgiau a'r gostyngiad a amlinellir yn yr adroddiad hwn a phenderfynu os dymunir cynnig aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd i Gyrfaoedd Cymru.